# Dalfeydd



Youth Justice Board
Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

SEFYDLIADAU TROSEDDWYR IFANC CANOLFANNAU HYFFORDDI DIOGEL ADDYSG, HYFFORDDIANT A GWAITH AILSEFYDLU

# Mae’r llyfryn hwn yn gyflwyniad i waith yr YJB o fewn y mannau diogel.

Mae’n disgrifio:

- beth yw’r mannau diogel
- ein rôl o fewn y mannau diogel
- sut beth yw’r ddalfa ar gyfer plant a phobl ifanc
- ein barn ni am y ddalfa
- y gwelliannau yr ydym yn eu gwneud
- monitro perfformiad
- bywyd ar ôl gadael y ddalfa
- sut yr ydym am weld y mannau diogel yn datblygu yn y dyfodol.

# Mannau diogel i blant a phobl ifanc

*'Mannau diogel i blant a phobl ifanc' yw'r term cyfunol a ddefnyddir ar gyfer cartrefi diogel i blant, canolfannau hyfforddi diogel a sefydliadau troseddwyr ifanc.*

'Mannau diogel i blant a phobl ifanc' yw'r term cyfunol a ddefnyddir ar gyfer tri math o sefydliad lle gellir lleoli plant a phobl ifanc 10 i 17 oed sy'n cael eu dedfrydu neu'u remandio i'r ddalfa yng Nghymru a Lloegr, sef:

- cartrefi diogel i blant
- canolfannau hyfforddi diogel
- sefydliadau troseddwyr ifanc.

## Cartrefi diogel i blant

Caiff cartrefi diogel i blant eu rhedeg naill ai gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol neu gan gwmnïau preifat, a gaiff eu goruchwylio gan Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Estyn yng Nghymru a'r Adran Iechyd a'r Adran Addysg a Sgiliau yn Lloegr.

O'r tri math o sefydliad, cartrefi diogel i blant sydd a'r gymhareb uchaf o ran nifer y staff i nifer y bobl ifanc, ac fel rheol maent yn llai o faint, gyda rhwng chwech a 40 o welyau. Fel rheol, cânt eu defnyddio i gadw plant iau (y rheiny sydd rhwng 12 a 14 oed). Ond, maent yn cael eu defnyddio hefyd i gadw menywod ifanc hyd at 16 oed, a dynion ifanc 15 i 16 oed y mae asesiad wedi dangos bod angen gofal ychwanegol arnynt.

## Canolfannau hyfforddi diogel

Mae canolfannau hyfforddi diogel yn ganolfannau sydd wedi'u hadeiladu'n bwrpasol ac sy'n cael eu defnyddio ar gyfer pobl ifanc hyd at 17 oed. Cânt eu rhedeg gan weithredwyr preifat dan gontract â Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr, sy'n pennu gofynion gweithredu manwl. Ceir pedair Canolfan Hyfforddi Ddiogel yn Lloegr:


Choice

*Mae tua 81% o'r bobl ifanc sydd yn y ddalfa yn cael eu cadw mewn sefydliadau troseddwyr ifanc.*

- Oakhill yn Swydd Bedford
- Hassockfield yn Swydd Durham
- Rainsbrook yn Swydd Northhampton
- Medway yng Nghaint.

Fel rheol, ceir tri aelod o staff i bob wyth person ifanc mewn canolfan hyfforddi ddiogel.

## Sefydliadau troseddwyr ifanc

Caiff sefydliadau troseddwyr ifanc eu rhedeg naill ai gan y Gwasanaeth Carchardai neu gan y sector preifat, a gall pobl ifanc 15 i 21 oed gael eu hanfon i'r sefydliadau hyn. Yr YJB sy'n comisiynu ac yn prynu'r lleoedd ar gyfer plant a phobl ifanc dan 18 oed (h.y. bechgyn 15 i 17 oed a merched 17 oed). Caiff y bobl ifanc hyn eu cadw mewn unedau sy'n hollol ar wahân i'r rheiny ar gyfer pobl 18 i 21 oed. Mae tua 81% o'r bobl ifanc sydd yn y ddalfa yn cael eu cadw mewn sefydliadau troseddwyr ifanc.

Mae nifer y staff i bob person ifanc mewn sefydliadau troseddwyr ifanc yn is na'r hyn a geir mewn canolfannau hyfforddi diogel a chartrefi diogel i blant, ac mae lle i fwy o bobl ifanc ynddynt. O ganlyniad, nid ydynt yn gallu diwallu anghenion unigol pobl ifanc i'r un graddau, ac yn gyffredinol ystyrir eu bod yn llai addas ar gyfer y rheiny y mae asesiad wedi dangos eu bod yn fwy bregus.

# Beth yw rôl yr YJB yn hyn?

Mae'r YJB yn gweithio i atal plant a phobl ifanc dan 18 oed rhag troseddu ac aildroseddu, a sicrhau bod y mannau lle cânt eu cadw ar ôl troseddu yn saff, yn ddiogel, ac yn mynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd eu hymddygiad troseddol. Nid ydym yn gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc nac yn dedfrydu pobl ifanc i'r ddalfa, ond rydym yn ymwneud â'r mannau diogel mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- comisiynu lleoedd
- goruchwylio gwasanaethau hebrwng
- penderfynu ym mha sefydliad y dylid cadw (neu 'leoli') pob person ifanc
- gosod safonau a monitro

## Comisiynu lleoedd

Ym mis Ebrill 2000, cawsom ein gwneud yn gyfrifol am gomisiynu a phrynu'r holl leoedd ar gyfer pobl ifanc sy'n cael eu dedfrydu neu'u remandio i'r ddalfa gan y llysoedd. Rydym yn gwario tua thri chwarter o'n cyllideb ar ddarparu lleoedd o'r fath.

## Gwasanaethau hebrwng

Rydym yn comisiynu'r gwasanaethau sy'n cludo pobl ifanc i'r mannau diogel a mannau perthnasol eraill (er enghraifft, o'r llys i'r ddalfa). Rydym hefyd yn gosod safonau ar gyfer y gwasanaethau hyn ac yn eu rheoli.

## Lleoli person ifanc

Wedi i berson ifanc gael ei ddedfrydu neu'i remandio i'r ddalfa gan y llysoedd, mae Tîm Lleoliadau'r YJB yn penderfynu ym mha un o'r sefydliadau neu'r cartrefi diogel y dylai gael ei gadw. Caiff y penderfyniad ei wneud ar sail y canlynol:

- asesiad o anghenion unigol y person ifanc a'r risgiau sy'n



*Rydym wedi sefydlu system leoli genedlaethol sy'n dod o hyd i leoliadau sy'n ateb yr anghenion a nodwyd.*

gysylltiedig ag ef; caiff yr asesiad hwn ei ddarparu gan y tîm troseddau ieuenctid sy'n gyfrifol amdano

- ceisio cadw'r person ifanc mor agos i'w gartref ag y bo modd
- y lleoedd sydd ar gael
- oedran, rhyw ac aeddfedrwydd y person ifanc, a'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ef.

Rydym wedi sefydlu system leoli genedlaethol sy'n dod o hyd i leoliadau sy'n ateb yr anghenion a nodwyd (er bod hyn yn medru bod yn ddibynnol ar yr adnoddau sydd ar gael).

## Gosod safonau a monitro

Rydym yn gosod y safonau perfformiad y mae'n ofynnol i'r mannau diogel eu bodloni. Yn ogystal, rydym yn monitro p'un a yw pob sefydliad yn bodloni'r gofynion a nodir yn ei gontract neu ei gytundeb lefel gwasanaeth ac yn cydymffurfio â'r *Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid.* Mae'r safonau hyn, a gafodd eu pennu gan yr Ysgrifennydd Cartref yn dilyn cyngor gan yr YJB, yn nodi lefel y gwasanaeth sy'n ofynnol gan y rheiny sy'n gweithio yn y system cyfiawnder ieuenctid. Mae'r safonau ar gael o www.yjb.gov.uk

# Poblogaeth y mannau diogel

Mae pobl ifanc sy'n cael eu cadw yn y mannau diogel naill ai wedi cael eu remandio neu'u dedfrydu i'r ddalfa gan y llysoedd.

## Remandio i'r ddalfa

Fel rheol, os yw'r llys yn gohirio achos (ei symud i ddyddiad arall), bydd yn penderfynu remandio'r person ifanc, yn enwedig os yw wedi'i gyhuddo o drosedd difrifol. Gall ddewis remandio'r person ifanc:

- ar fechnïaeth amodol
- ar fechnïaeth ddiamod
- i lety'r awdurdod lleol
- i'r ddalfa (remánd diogel).

Bydd pobl ifanc dan 17 oed, sy'n cael eu cyhuddo o drosedd ond sydd heb eu rhyddhau ar fechnïaeth, yn cael eu remandio, fel rheol, i lety'r awdurdod lleol (a heblaw ei fod yn un o amodau'r remánd, gall yr awdurdod lleol benderfynu pa fath o lety y mae'n ei ddarparu ar gyfer y person ifanc). Os penderfynwyd bod angen remánd diogel (oherwydd bod y trosedd yn arbennig o ddifrifol neu oherwydd bod y person ifanc wedi troseddu'n aml), mae'n debygol y bydd y person ifanc yn cael ei leoli mewn cartref diogel i blant neu ganolfan hyfforddi ddiogel.

## Dedfrydu i'r ddalfa

Mewn achosion lle mae difrifoldeb y trosedd, hanes y troseddwr neu'r risg i'r cyhoedd yn golygu nad oes modd cadw troseddwr ifanc yn y gymuned i'w gosbi, bydd y person ifanc hwnnw'n cael ei ddedfrydu i'r ddalfa.

Y Gorchymyn Cadw a Hyfforddi yw'r brif ddedfryd i'r ddalfa ar gyfer pobl ifanc 12 i 17 oed. Mae'r ddedfryd yn gallu para rhwng pedwar mis a dwy flynedd. Caiff hanner cyntaf y ddedfryd ei dreulio yn y ddalfa, a chaiff yr ail hanner ei dreulio yn y gymuned o dan oruchwyliaeth y tîm troseddau ieuenctid.



Os hoffech gael manylion am y dedfrydau eraill sy'n cynnwys treulio cyfnod mewn dalfa, gweler y llyfryn sy'n dwyn y teitl *Y System Cyfiawnder Ieuenctid.*

## Gwahaniaethu

Mae nifer y bobl ifanc ddu a'r bobl ifanc o leiafrifoedd ethnig yn y system cyfiawnder ieuenctid yn dal i fod yn uchel o'i gymharu â chyfansoddiad y boblogaeth yn gyffredinol.


Darganfu adroddiad yr YJB, *Differences or Discrimination?*:

- bod cyfran uwch o ddynion du a dynion Asiaidd wedi'u remandio i'r ddalfa cyn iddynt gael eu dedfrydu
- bod y ddalfa'n cael ei defnyddio i raddau ychydig yn fwy ar gyfer dynion Asiaidd
- ei bod yn llawer mwy tebygol y byddai dyn du, pe bai'n cael ei ddedfrydu yn Llys y Goron, yn cael dedfryd o 12 mis neu fwy
- bod cyfran lawer uwch o fenywod o dras gymysg yn cael eu herlyn.

Caiff arian o raglenni goruchwyliaeth a gwyliadwriaeth ddwys yr YJB ei ddefnyddio i dargedu ardaloedd lle mae llawer o bobl ifanc yn cael eu hanfon i'r ddalfa, er mwyn sicrhau nad oes nifer anghyfartal o bobl ifanc o ardaloedd penodol yn cael eu hanfon i'r ddalfa.

## Nifer y bobl ifanc yn y ddalfa

Os hoffech gael manylion ynghylch nifer y bobl ifanc sydd yn y ddalfa bob mis, gweler yr adran 'Y Ddalfa' yn yr adran System Cyfiawnder Ieuenctid ar wefan yr YJB www.yjb.gov.uk.


DAILY ROUTINE
•WAKE-UP 7:30 am,
•SHOWER, CLEAN ROOM,
MAKE BED + OUT BY 8:00 am,
•BREAKFAST + CHORES
FINISHED BY 8:30 am,
•MORNING MEETING,
•MORNING EDUCATION 9:00 am,
•DINNER TIME 12:00-2:00 pm,
•AFTERNOON EDUCATION 2:00 pm
•4:00 pm, RETURN TO UNIT +
AFTERNOON MEETING,
•CRIME AVOIDANCE,
•OUTSIDE ACTIVITIES (½ HOUR)
•FREE TIME (POOL, PHONE etc)
•EVENING MEAL + CHORES.
•BED-TIME 9:30 pm
•SHOWER + SLEEP

# Ein barn ni am y ddalfa

Rydym ni o'r farn:

- mai dim ond pan fydd popeth arall wedi methu y dylai'r ddalfa gael ei defnyddio
- y dylai'r gosb godi o amddifadu pobl ifanc o'u rhyddid ac nid o lymder y drefn
- y dylai'r ddalfa gynnwys pobl ifanc mewn gweithgareddau cadarnhaol y profwyd eu bod yn lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn aildroseddu
- y dylai'r ddalfa barchu a chynnal yr hawliau hynny sydd gan bobl ifanc yn y gymuned.

Mae'r egwyddorion hyn yn sail i'r holl waith a wnawn gyda'r mannau diogel ac oddi mewn iddynt.

## Dim ond pan fydd popeth arall wedi methu y dylai'r ddalfa gael ei defnyddio

Mae pobl ifanc yn fregus, yn ddibynnol ar eraill ac yn dal i ddatblygu. Yn y rhan fwyaf o achosion rydym o'r farn nad y ddalfa yw'r ffordd orau o wneud pobl ifanc yn atebol am eu gweithredoedd, neu o leihau'r tebygolrwydd y byddant yn aildroseddu, oherwydd mae'n golygu:

- eu gwahanu oddi wrth unrhyw ffactorau cadarnhaol sy'n bresennol yn eu bywydau ac y gellid adeiladu arnynt i'w helpu i roi'r gorau i droseddu (megis perthynas gadarnhaol â'r teulu)
- eu hamddifadu o wasanaethau prif ffrwd (megis addysg neu hyfforddiant) – a gall fod yn anodd iawn iddynt ailgydio yn y pethau hyn wedi iddynt gael eu rhyddhau.

Felly, er mwyn gostwng cyfraddau aildroseddu, rydym o'r farn y dylid lleihau nifer y bobl ifanc a gaiff eu hanfon i'r mannau diogel, gan fynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol drwy ddulliau sy'n cael eu gweithredu yn y gymuned lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

**Defnyddio dulliau sy'n osgoi anfon pobl ifanc i'r ddalfa**

Mae angen dulliau cadarn, sy'n cael eu gweithredu yn y gymuned, ac sy'n osgoi anfon pobl ifanc i'r ddalfa. Mae'n rhaid i'r dulliau hyn amddiffyn y cyhoedd ac ar yr un pryd ganiatáu i bobl ifanc, sydd wedi cyflawni troseddau difrifol a chyson, adeiladu ar y ffactorau amddiffynnol yn eu bywydau a pharhau i gael mynediad i wasanaethau prif ffrwd (megis ysgolion).

Rydym am i'r rheiny sy'n dedfrydu a'r gymuned gael mwy o ffydd mewn dedfrydau sy'n cael eu cyflawni yn y gymuned. Yn raddol, bydd hyn yn eu helpu i wneud llai o ddefnydd o'r ddalfa.

Ceir nifer o ddedfrydau sy'n cael eu cyflawni yn y gymuned (megis y Rhaglen Goruchwyliaeth a Gwyliadwriaeth Ddwys) y gellir eu defnyddio yn lle anfon pobl ifanc i'r ddalfa (ceir mwy o fanylion ar ein gwefan, www.yjb.gov.uk).

**Y Rhaglen Goruchwyliaeth a Gwyliadwriaeth Ddwys**

Ar wahân i anfon pobl ifanc i'r ddalfa, y Rhaglen Goruchwyliaeth a Gwyliadwriaeth Ddwys yw'r ymyriad mwyaf llym sydd ar gael ar gyfer pobl ifanc sydd wedi troseddu. Mae'n cyfuno:

- gwyliadwriaeth yn y gymuned (sy'n medru cynnwys tag electronig, neu fonitro lleoliad y person ifanc dros y ffôn)
- pwyslais cynhwysfawr a pharhaus ar fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n cyfrannu at ymddygiad troseddol y person ifanc.

Mae'r Rhaglen Goruchwyliaeth a Gwyliadwriaeth Ddwys bellach yn gweithredu ar hyd a lled Cymru a Lloegr. Ceir 74 o gynlluniau dan y Rhaglen Goruchwyliaeth a Gwyliadwriaeth Ddwys ac mae'r ymyriad ar gael ym mhob un o'r 156 o dimau troseddau ieuenctid.



*‘Mae’n rhaid treulio o leiaf 25 awr yr wythnos yn gwneud pethau a fydd o gymorth i chi yn y dyfodol. Mae’n eich helpu i roi’r gorau i droseddu.’ (Person ifanc, Rhaglen Goruchwyliaeth a Gwyliadwriaeth Ddwys)*

## Dylai’r gosb godi o amddifadu pobl ifanc o’u rhyddid ac nid o lymder y drefn

Dylai’r mannau diogel gadw pobl ifanc yn ddiogel rhag niwed, a rhaid cynllunio dedfrydau a’r gwaith o ailsefydlu pobl ifanc yn y gymuned er mwyn eu helpu i beidio ag aildroseddu wedi iddynt gael eu rhyddhau. Rydym hefyd yn credu y dylai’r cyfyngiadau a osodir ar ryddid pobl ifanc fod yn gymesur â’r risg wirioneddol y maent yn ei pheri i’w hunain ac i bobl eraill.

## Dylai’r ddalfa gynnwys pobl ifanc mewn gweithgareddau cadarnhaol y profwyd eu bod yn lleihau’r tebygolrwydd y byddant yn aildroseddu

**Addysg, hyfforddiant a gwaith**
Mae pobl ifanc nad ydynt yn ymwneud ag addysg, hyfforddiant neu waith yn llawer mwy tebygol o aildroseddu na’r rheiny sydd mewn addysg, hyfforddiant neu waith. Mae’r rheiny sydd yn y ddalfa yn cael addysg a hyfforddiant gorfodol (rhwng 25 a 30 awr yr wythnos), sy’n cael eu monitro gan Ofsted fel yn achos pob ysgol arall.

Mae’r *Fanyleb Genedlaethol ar gyfer Dysgu a Sgiliau* a gyhoeddwyd gan yr YJB (2004) yn disgrifio’r addysg, yr hyfforddiant a’r gwaith yr ydym yn disgwyl i gartrefi diogel i blant a chanolfannau hyfforddi diogel eu darparu. Rydym yn monitro i ba raddau y mae sefydliadau yn cydymffurfio â hyn, ac mae Ofsted yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar ansawdd yr hyn a ddarperir.

Yn ddiweddar, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am gyllido a chomisiynu addysg mewn sefydliadau troseddwyr ifanc i’r Cyngor Dysgu a Sgiliau. Mae’r Cyngor hefyd yn monitro ansawdd y ddarpariaeth. Mae’r holl ddarparwyr addysg a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Addysg a Sgiliau Troseddwyr newydd hwn (OLASS) yn golegau addysg bellach neu’n bartneriaid hyfforddiant cofrestredig.

Gan weithio mewn partneriaeth â’r Adran Addysg a Sgiliau, rydym wedi datblygu gwell darpariaeth addysg ar draws y mannau diogel, drwy oruchwylio’r gwaith o gyflwyno staff arbenigol allweddol (megis cynorthwywyr dysgu), rhoi ffocws newydd ar lythrennedd a rhifedd a chynyddu’r cyllid sydd ar gael gymaint â phedair gwaith.

**Camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl**

Mae gwaith ymchwil yn dangos bod gan bobl ifanc sydd wedi troseddu lefelau uchel iawn o broblemau iechyd meddwl, problemau o ran camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd cyffredinol.

Dylai fod gan bobl ifanc sy'n treulio cyfnod mewn dalfa yr un mynediad i wasanaethau sy'n mynd i'r afael â'r problemau hyn ag unrhyw blentyn neu berson ifanc yn y gymuned; o ganlyniad, rydym wedi cyflwyno gofal iechyd 24 awr, ac wedi trosglwyddo'r cyfrifoldeb am y ddarpariaeth iechyd o'r Gwasanaeth Carchardai i ymddiriedolaethau iechyd cynradd.

Rydym hefyd yn gweithio gyda'r Adran Iechyd, y Gwasanaeth Carchardai a'r Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer trin problemau camddefnyddio sylweddau ar adnodd sgrinio cynhwysfawr i'w ddefnyddio i sgrinio iechyd pobl ifanc yn y mannau diogel. Mae'r adnodd yn cynnwys asesiadau sy'n edrych ar iechyd, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, a chaiff ei gwblhau cyn pen pum diwrnod wedi i berson ifanc gyrraedd. Yna, gellir cysylltu canlyniadau'r asesiad hwn â'r cynllun a luniwyd ar gyfer dedfryd pob person ifanc.

Cafodd manyleb yr YJB, *Manyleb Genedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Camddefnyddio Cyffuriau ar gyfer Pobl Ifanc yn y Ddalfa* ei rhoi ar waith ar 1 Ebrill 2004. Bellach mae gofynion y fanyleb honno wedi'u hychwanegu at:

- gytundebau lefel gwasanaeth rhwng yr YJB a'r Gwasanaeth Carchardai
- contractau rhwng yr YJB a chartrefi diogel i blant a chanolfannau hyfforddi diogel.

Ceir timau camddefnyddio sylweddau ym mhob sefydliad troseddwyr ifanc i gyflwyno'r *Fanyleb Genedlaethol*, a cheir darpariaeth mewn canolfannau hyfforddi diogel a chartrefi diogel i blant hefyd. Mae rhaglen ar waith hefyd i gyflwyno dros 90 o staff newydd a darparu sesiynau un-i-un a gwaith grŵp ar gamddefnyddio sylweddau mewn sefydliadau troseddwyr ifanc. Mae'r YJB yn treialu canllawiau dadwenwyno a rheolaeth glinigol (y cyntaf o'u math ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed) ar gyfer pobl ifanc mewn pum sefydliad diogel.



Os hoffech gael mwy o wybodaeth, gweler y llyfryn sy'n dwyn y teitl *Iechyd*.

**Chwaraeon a chelf**

Mae'r pynciau hyn yn rhan annatod o Gwricwlwm Cenedlaethol Lloegr, sy'n sail i'r *Fanyleb Genedlaethol ar gyfer Addysg a Sgiliau* a dogfen gyfatebol OLASS, sef *Offenders' Learning Journey*, ac felly maent yn rhan allweddol o fywyd pob sefydliad diogel. Mae'r YJB yn gweithio gyda rhaglen *Positive Futures* y Swyddfa Gartref a Chyngor Celfyddydau Lloegr. Nod y cydweithio hwn yw defnyddio chwaraeon a chelf i greu gwell gweithgareddau sydd wedi'u bwriadu i gyfeirio sylw pobl ifanc at bethau mwy cadarnhaol.

## Dylid parchu a chynnal hawliau plant a phobl ifanc sy'n treulio cyfnod mewn dalfa.

Yn hanesyddol mae pobl ifanc sy'n treulio cyfnod mewn dalfa wedi cael eu hamddifadu o'r gwasanaethau prif ffrwd y mae gan y rhan fwyaf o blant yn ein gwlad hawl iddynt yn ôl y gyfraith. Fodd bynnag, yn 2002, barnodd Mr Ustus Munby y canlynol:

- dylai Deddf Plant (1989) fod yn berthnasol i blant sy'n cael eu cadw mewn sefydliadau troseddwyr ifanc
- mae'r dyletswyddau sydd gan awdurdodau lleol tuag at blant yn parhau i fod yn berthnasol i blant mewn sefydliadau troseddwyr ifanc
- mae'r ddeddfwriaeth hawliau dynol, yn enwedig Deddf Hawliau Dynol (1998), yn berthnasol i blant sy'n cael eu cadw mewn dalfa.

*Ceir timau camddefnyddio sylweddau ym mhob sefydliad troseddwyr ifanc.*

# Diogelwch yn y mannau diogel



Rydym wedi ymrwymo i leihau'r tebygolrwydd y bydd pobl ifanc sy'n treulio cyfnod mewn dalfa yn cael eu niweidio. Gyda'r bwriad hwn mewn golwg, rydym wedi pennu mesurau diogelwch cadarn, sy'n berthnasol i bob sefydliad.

**Dulliau diogelu a diogelwch**
Rydym yn gwneud pob peth yn ein gallu i sicrhau bod pobl ifanc sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid yn cael eu cadw'n ddiogel a bod eu lles yn cael ei hybu. Rydym yn gweithredu dulliau diogelu llym er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd pobl ifanc sy'n treulio cyfnod mewn dalfa yn cael unrhyw niwed. Mae'r rhain yn cynnwys:

- sefydlu côd ymarfer ar gyfer trefniadau rheoli ymddygiad (yn enwedig dulliau atal corfforol)
- rhaglenni datblygedig yn ymwneud ag atal hunan-niwed, hunanladdiad a bwlio
- arferion i atal niwed gan oedolion, gan gynnwys darparu llety ar wahân lle bynnag y bo hynny'n bosibl
- darparu gwasanaethau cymorth annibynnol
- cyllid cychwynnol sy'n galluogi 25 o staff awdurdodau lleol i weithio mewn sefydliadau troseddwyr ifanc yn ymgymryd â dyletswyddau yn unol â Deddf Plant 1989
- buddsoddi i wella ansawdd a diogelwch ar draws yr holl fannau diogel.

**Dulliau atal**
Weithiau, mae'n rhaid defnyddio grym corfforol gyda phlant a phobl ifanc mewn lleoliadau diogel, ond dim ond pan fydd popeth arall wedi methu y dylid gwneud hynny. Pan fydd ymddygiad rhywun mor heriol fel bod asesiad yn dangos ei fod yn peri risg i eraill, iddo ef ei hun neu i staff, gall staff hyfforddedig

ddefnyddio cyn lleied o rym ag sy'n bosibl am yr amser byrraf posibl.

Nid yw dulliau atal byth yn cael eu defnyddio fel cosb nac er mwyn gwneud i bobl ifanc gydymffurfio â chyfarwyddiadau staff.

Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Gwasanaeth Carchardai i weld p'un a oes modd addasu ei system atal fel ei bod yn dibynnu llai ar ddefnyddio poen mewn modd rheoledig. Rydym hefyd wedi cwblhau adolygiad o Reolaeth Gorfforol mewn Gofal, sef y system a ddefnyddir mewn canolfannau hyfforddi diogel. Rydym yn gweithio gyda phob sefydliad lle caiff pobl ifanc eu cadw i ddatblygu gwybodaeth fwy cyson ar ddulliau atal, fel bod modd cyflwyno unrhyw welliannau angenrheidiol.



# Monitro perfformiad y mannau diogel

Rydym yn monitro'r mannau diogel er mwyn:

- sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau uchel yr ydym yn eu mynnu ganddynt
- asesu eu heffaith ar y system cyfiawnder ieuenctid
- gwneud yn siŵr bod pobl ifanc yn cael eu cadw mewn amgylchedd diogel a symbylol
- sicrhau eu bod yn gwneud pob peth o fewn eu gallu i leihau'r tebygolrwydd y bydd pobl ifanc yn aildroseddu
- gwneud yn siŵr ein bod yn cael gwerth am arian

## Cyfundrefnau effeithiol

Rydym yn monitro pa mor dda y mae pob un o'r sefydliadau diogel yn perfformio yn erbyn yr hyn y mae wedi cytuno i'w wneud, yn ogystal ag yn erbyn ein safonau ni ein hunain. Rydym yn gwneud hyn gan ddefnyddio ein fframwaith *Cyfundrefnau Effeithiol*.

Mae *Cyfundrefnau Effeithiol* yn monitro pob cam o'r cyfnod y mae person ifanc yn ei dreulio yn y ddalfa, gan gynnwys:

- yr adeg y mae'n cyrraedd y ddalfa
- beth sy'n digwydd i'r person ifanc pan fydd yn y ddalfa (ansawdd y gwasanaethau y mae'n eu cael).

Ar sail yr hyn yr ydym yn ei ddarganfod, gallwn weithredu, os oes angen, i wella'r modd y caiff pethau eu gwneud yn y mannau diogel.

## Arolygiadau

Yn ogystal â'r fframwaith monitro hwn, caiff sefydliadau troseddwyr ifanc eu harolygu'n rheolaidd gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi.

Mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn arolygu sefydliadau troseddwyr ifanc ar sail y meini prawf canlynol:

- cadw pobl ifanc yn ddiogel
- trefn dda
- cysylltiadau hiliol
- gofal iechyd
- gwaith.

Gellir dod o hyd i adroddiadau'r Arolygiaeth ar www.inspectorates.homeoffice.gov.uk

## Adroddiadau'r Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol

Mae'r Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol (CSCI) yn cynnal arolygiadau blynyddol mewn perthynas â chanolfannau hyfforddi diogel a chartrefi diogel i blant yn Lloegr, ac mae'r adroddiadau o fis Hydref 2003 ymlaen ar gael ar wefan y Comisiwn (www.csci.org.uk). Gellir dod o hyd i adroddiadau cynharach ar wefan yr Adran Iechyd (www.dh.gov.uk). Yng Nghymru, caiff arolygiadau eu cynnal gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru.

*Rydym yn monitro pa mor dda y mae pob un o'r sefydliadau diogel yn perfformio yn erbyn yr hyn y mae wedi cytuno i wneud.*

# Bywyd ar ôl gadael y ddalfa



Pan gaiff pobl ifanc eu rhyddhau, mae'n bwysig bod y gweithgareddau ailsefydlu yn ategu'r gwaith a wnaed gyda hwy yn y ddalfa.

Mae cael y broses ailsefydlu yn iawn yn hanfodol bwysig o ran sicrhau bod pobl ifanc sy'n gadael y ddalfa, beth bynnag yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau, yn cael y cymorth y mae ei angen arnynt. Dylai'r gwaith cynllunio ddechrau cyn yr achos llys, a pharhau drwy gydol cyfnod y person ifanc yn y ddalfa, a'r broses o'i ailsefydlu yn y gymuned, a thu hwnt i ddiwedd cyswllt y person ifanc â'r tîm troseddau ieuenctid.

Mae fframwaith gweithredu'r YJB, *Youth Resettlement: A Framework for Action* (ar gael o www.yjb.gov.uk) yn nodi'r hyn y mae angen ei wneud yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol i ddatblygu gwaith yn y maes hwn. Mae'r cynllun hwn yn amlygu'r meysydd canlynol fel rhai sy'n ganolog i broses ailsefydlu effeithiol:

- Rheoli achosion a phontio
- Llety
- Addysg, hyfforddiant a gwaith
- Iechyd
- Camddefnyddio sylweddau
- Teuluoedd
- Cyllid, budd-daliadau a dyled

Ceir rhestr o'r llinellau cymorth sydd ar gael ar gyfer pobl ifanc sy'n treulio cyfnod mewn dalfa neu sydd newydd adael y ddalfa, ar ein gwefan www.yjb.gov.uk ar y dudalen 'Cyngor i bobl ifanc sy'n treulio cyfnod mewn dalfa'.

## Darpariaeth Ailsefydlu ac Ôl-ofal

Rydym yn rhoi cryn bwyslais ar y ddarpariaeth ailsefydlu ac ôl-ofal ar gyfer y bobl ifanc hynny a oedd â phroblemau camddefnyddio sylweddau adeg eu hanfon i'r ddalfa.


rebound

*Y nod yw paratoi pobl ifanc i fyw o fewn y gyfraith wedi iddynt gael eu rhyddhau.*

Nod y rhaglen Darpariaeth Ailsefydlu ac Ôl-ofal, a gaiff ei rhedeg gan dimau troseddau ieuenctid, yw:

- ymwneud â phobl ifanc tra byddant yn y ddalfa
- parhau i ddarparu lefel uchel o gymorth yn ystod y rhan o'u Gorchymyn Cadw a Hyfforddi sy'n cael ei chyflawni yn y gymuned
- cynnig hyd at chwe mis o gymorth ar ôl i'w dedfryd ddod i ben.

Mae darpariaeth graidd y rhaglen Ailsefydlu ac Ôl-ofal yn cynnig hyd at 25 awr o gymorth a gweithgareddau a gynlluniwyd bob wythnos, gan gynnwys:

- mynediad i driniaethau sy'n mynd i'r afael â phroblemau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl
- cymorth i ddod o hyd i lety
- addysg, hyfforddiant a gwaith
- gwneud defnydd cadarnhaol o amser hamdden
- gwaith cymorth gyda chyfoedion a theuluoedd

# Yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni hyd yma

Mae'r mannau diogel ar gyfer plant a phobl ifanc wedi gwella'n sylweddol ers i'r YJB gael ei ffurfio.

- Rydym wedi sefydlu system leoli genedlaethol sy'n dod o hyd i leoliadau sy'n ateb yr anghenion a nodwyd.
- Rydym wedi cyflwyno safonau a thargedau cenedlaethol y gellir eu defnyddio i fonitro perfformiad yn eu herbyn.
- Ceir gwell systemau a chyfleusterau addysg, gyda'r bobl ifanc yn treulio llai o amser yn eu hystafelloedd.
- Mae'r trefniadau diogelwch wedi gwella, gan gynnwys trefniadau sgrinio manwl ar gyfer nodi unrhyw risgiau ac anghenion, a cheir amgylchiadau ffisegol gwell a mwy diogel.
- Mae mwy o leoedd ar gael ar gyfer pobl ifanc fregus a phlant iau y tu allan i sefydliadau'r Gwasanaeth Carchardai.
- Ceir gwell trefniadau gofal iechyd, gan gynnwys darpariaeth gofal iechyd 24 awr.
- Mae 144 o leoedd ychwanegol wedi'u darparu mewn canolfannau hyfforddi diogel.
- Mae pob merch dan 17 oed wedi'u symud o lety'r Gwasanaeth Carchardai, a'u lleoli mewn cartrefi diogel i blant neu ganolfannau hyfforddi diogel; caiff merched 17 oed eu cadw mewn unedau arbennig sydd ar wahân i unedau ar gyfer menywod mewn oed.
- Mae gan Ganolfan Hyfforddi Ddiogel Rainsbrook dri lle arbennig ar gyfer mamau a babanod sy'n golygu, am y tro cyntaf, bod gan

*Mae pob merch dan 17 oed wedi'u symud o lety'r Gwasanaeth Carchardai.*



famau ifanc dan 18 oed ddarpariaeth arbennig y tu allan i'r Gwasanaeth Carchardai i ddiwallu eu hanghenion ac anghenion eu babanod.

- Rydym wedi cyllido rhaglenni Darpariaeth Ailsefydlu ac Ôl-ofal mewn 50 o dimau troseddau ieuenctid, sy'n gweithio gydag o leiaf 960 o blant a phobl ifanc y flwyddyn.

# Edrych tua'r dyfodol



Mae ein *Strategaeth ar gyfer Mannau Diogel i Blant a Phobl Ifanc, (Strategy for the Secure Estate for Children and Young People*), sydd ar gael o'r wefan, www.yjb.gov.uk, yn cyflwyno'r camau y mae'r YJB yn bwriadu eu cymryd yn ystod y tair blynedd nesaf i ddatblygu'r mannau diogel o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Rydym yn bwriadu gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Carchardai a chontractwyr preifat i wella systemau, gan chwilio am gyfleoedd i wella, amrywio a moderneiddio'r mannau diogel.

Bydd yr amser y mae'n ei gymryd i gyflawni'r strategaeth hon yn dibynnu ar y duedd o ran dedfrydu dros y tair blynedd nesaf, ac ar yr adnoddau sydd ar gael.

Isod trafodir tri maes pwysig y bydd y gwelliannau hyn yn canolbwyntio arnynt.

## Gwella strwythur ffisegol y mannau diogel

Er mwyn gweithredu'r *Strategaeth ar gyfer Mannau Diogel i Blant a Phobl Ifanc*, rydym yn canolbwyntio ar sut y bydd y mannau diogel yn cael eu datblygu dros y deng mlynedd nesaf. Mae'r newidiadau'n cynnwys:

- lleihau nifer y safleoedd a rennir, (lle caiff pobl ifanc eu cadw mewn unedau ar wahân yn yr un sefydliadau ag oedolion sydd wedi troseddu)
- creu unedau llai o fewn sefydliadau sy'n medru cynnig cymorth mwy arbenigol i bobl ifanc y mae asesiad wedi dangos bod ganddynt anghenion penodol (er enghraifft, eu bod yn fwy tebygol o niweidio'u hunain).



*Ein nod yw gweithio gyda'r rheiny sy'n dedfrydu fel bod nifer y bobl ifanc sydd yn y ddalfa yn cael ei leihau gymaint â 10%.*

## Lleihau nifer y bobl ifanc sydd yn y ddalfa

Ein nod yw gweithio gyda'r rheiny sy'n dedfrydu fel bod nifer y bobl ifanc sydd yn y ddalfa yn cael ei leihau gymaint â 10% rhwng Mawrth 2005 a Mawrth 2008.

Mae'r cynigion i gyflawni hyn yn cynnwys y canlynol:

- cryfhau'r dedfrydau a'r dulliau eraill sy'n cadw pobl ifanc yn y gymuned yn lle eu hanfon i'r ddalfa
- y gallu i leoli pobl ifanc mewn sefydliadau nad ydynt yn rhai diogel, os yw asesiadau'n dangos bod hynny'n briodol
- gwneud defnydd mwy hyblyg o'r drefn o ryddhau unigolion dros dro mewn modd sydd wedi'i gynllunio, gan ddefnyddio dulliau monitro electronig i gefnogi hynny mewn rhai achosion, fel bod pobl ifanc sydd yn y ddalfa yn medru manteisio ar gyfleoedd hyfforddiant a gwaith yn y gymuned.

## Diwallu anghenion pobl ifanc mewn dalfeydd yng Nghymru

Oherwydd prinder mannau diogel yng Nghymru, caiff y mwyafrif llethol o bobl ifanc Cymru sydd mewn dalfeydd eu cadw mewn sefydliadau yn Lloegr. Mae angen i ni gydweithio'n agos â Llywodraeth y Cynulliad er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon, a byddwn yn penderfynu ar y ffordd orau o ddatblygu darpariaeth yng Nghymru ar sail argymhellion gan weithgor yr YJB/Llywodraeth y Cynulliad.

Youth Justice Board
Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

Mae'r YJB wedi cyhoeddi cyfres o lyfrynnau corfforaethol. Gellir archebu'r teitlau canlynol yn y gyfres hon drwy fynd i wefan yr YJB neu drwy ffonio'r llinell archebu:

**Ffôn: 0870 120 7400**
**Ffacs: 0870 120 7401**

| Côd stoc | Teitl |
|---|---|
| B281 | Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr |
| B282 | Systemau Technoleg Gwybodaeth y System Cyfiawnder Ieuenctid |
| B306 | Addysg, Hyfforddiant a Gwaith |
| B307 | Dalfeydd |
| B308 | Llety |
| B309 | Gweithio gyda Dioddefwyr |
| B310 | Iechyd |
| B312 | Monitro Perfformiad a Gwella Arferion |
| B313 | Atal Troseddau |
| B314 | Gweithio gyda Rhieni |
| B315 | Gweithio a Gwirfoddoli yn y System Cyfiawnder Ieuenctid |

Ceir mwy o wybodaeth am y prosesau a'r sefydliadau sy'n rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid yn ei chyfanrwydd yn y llyfryn sy'n dwyn y teitl Y System Cyfiawnder Ieuenctid (B311).

**Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr**
**Youth Justice Board for England and Wales**
11 Carteret Street,
London SW1H 9DL
Ffôn: 020 7271 303
Ffacs: 020 7271 3030
www.yjb.gov.uk